**Memorandwm Esboniadol** i Reoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026.  Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jack Sargeant AS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**13 Ionawr 2026**

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus ar ffurf gwaith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

1.2 Mae'r Rheoliadau hyn, sef "Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026" ("y Rheoliadau") wedi cael eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Mae'r Rheoliadau yn darparu'r manylion sydd eu hangen i weithredu Rhan 3 o'r Ddeddf (Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol).

1.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer:

- Diffinio contractau rhagnodedig
- Diwygio adran 27(4) o'r Ddeddf
- Diffinio contractau cofrestradwy
- Gwybodaeth sy'n ofynnol mewn adroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 24(8)(c), 27(4)(c), 39(2)(e), 39(2)(f), 39(3), 40(2) a 44 o'r Ddeddf.

3.2 Mae Gorchymyn Cychwyn 4 yn cychwyn Adran 22(2), 24(1–7), 25(1), 26(1), 28, 29, 30, 31, 34, 35, 36, 37, 38, 40, 41, ac Atodlen 2, ar 25 Mawrth 2026, ac Adran 39 a 42 ar 1 Ebrill 2026. Y bwriad yw y bydd y Rheoliadau yn dod i rym yn unol â'r adrannau perthnasol o dan Orchymyn Cychwyn 4.

3.3 Yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, dylid darllen cyfeiriadau yn y Ddeddf at "y weithdrefn gadarnhaol" fel cyfeiriadau at weithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn adran 37C o'r Ddeddf honno, a chyfeiriadau at "y weithdrefn negyddol" fel cyfeiriadau at weithdrefn annilysu'r Senedd yn adran 37E.

3.4 Yn unol â darpariaethau adran 44(2) o'r Ddeddf, bydd gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 24(8)(c) a 27(4)(c).

3.5 Yn unol â darpariaethau adran 44(3) o'r Ddeddf, bydd gweithdrefn annilysu'r Senedd yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 39(2)(e), 39(2)(f), 39(3), 40(2).

3.6 O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gall darpariaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. O ganlyniad, bydd gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r dirwedd caffael cyhoeddus yng Nghymru yn esblygu. Gyda thros £11 biliwn yn cael ei wario ar gaffael cyhoeddus bob blwyddyn yng Nghymru, gall gwella'r ffordd y mae caffael cyhoeddus yn cael ei reoleiddio sbarduno arloesedd a chydnerthedd, a sicrhau manteision ar hyd a lled Cymru drwy gefnogi ein heconomi leol ac arbed arian i'r trethdalwr.

4.2 O safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i harneisio cyfleoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ac i weithio gyda phartneriaid ledled Cymru a'r tu hwnt i ddatblygu dull modern a chynaliadwy o gaffael.

4.3 Bydd y newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn helpu i gyflawni dyheadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

4.4 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael eu datblygu mewn perthynas â Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 sy'n deillio o'r Ddeddf. Mae angen y Rheoliadau hyn i weithredu gofynion y Ddyletswydd Caffael Gymdeithasol Gyfrifol wedi'u sefydlu gan y Ddeddf.

4.5 Prif amcanion polisi'r Rheoliadau yw sefydlu dyletswyddau sy'n cyfrannu at sicrhau bod caffael cyhoeddus a rheoli contractau'n cael eu cynnal mewn ffordd cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru.

4.6 Y bwriadau yw:

- cefnogi awdurdodau contractio, a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, i sicrhau bod nodau llesiant yn cael eu hystyried yn eu prosesau caffael, er mwyn gwella llesiant Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu;

- sicrhau bod canlyniadau llesiant wrth wraidd strategaethau a phrosesau caffael;
- gwella'r cysylltiad rhwng prosesau caffael a chyflawni canlyniadau drwy brosesau rheoli contractau gwell;
- gwella tryloywder drwy adroddiadau blynyddol sy'n rhannu arferion da ac yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen gwelliannau.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Rheoliadau drafft dros gyfnod o 12 wythnos rhwng 22 Gorffennaf 2025 a 14 Hydref 2025. Mae'r ymgynghoriad ar gael yma: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol | LLYW.CYMRU

5.2 Gwnaeth swyddogion gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â'r dull ymgynghori, anfon llythyrau at randdeiliaid allweddol a chyfathrebu yn helaeth drwy gylchlythyr, y platfform cyfryngau cymdeithasol 'X' ac e-bost.

5.3 Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd y drafft yn adlewyrchu'r bwriad polisi. Ni ofynnwyd am farn ar y polisi ei hun, sydd eisoes wedi cael ei nodi gan y Ddeddf.

5.4 Gofynnwyd cwestiynau gorfodol i'r ymatebwyr. Pan atebodd ymatebwyr 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf', gofynnwyd iddyn nhw roi manylion o dan bob adran. Yn ogystal, roedd dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr ymgynghoriad.

5.5 Cafodd Llywodraeth Cymru 60 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrediad eang o randdeiliaid, drwy gyfuniad o ffurflenni ar-lein, negeseuon e-bost a llythyrau.

5.6 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion wedi cael eu cyhoeddi yn Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol | LLYW.CYMRU.

5.7 Roedd yr adborth a ddaeth i law yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i roi eu barn.

5.8 Bu cytundeb cyffredinol ynghylch y rhan fwyaf o'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd nifer o bwyntiau a godwyd yn arwain at yr angen am ddiwygiadau i'r Rheoliadau.

5.9 Mae'r diwygiadau hyn fel a ganlyn:

- Bydd diwygiad i'r Rheoliadau fel na fydd contractau adroddadwy (a.39) bellach yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at gontractau cofrestradwy (a.40). Bydd yr ystyr yn aros yr un fath, ond bydd yn

cynorthwyo darllenwyr y Rheoliadau drwy osgoi dryswch a'r angen i groesgyfeirio at ddiffiniad nad yw'n gysylltiedig.

- Bydd Rheoliadau 3(3) a 4(3) yn ychwanegu is-baragraffau at gontractau sydd wedi eu hesemptio o'r Ddeddf Caffael o dan Adran 102A (Pŵer i ddatgymhwyso'r Ddeddf hon mewn perthynas â chaffael gan y GIG yng Nghymru) a chontractau wedi'u dyfarnu o dan adran 41 drwy gyfeirio at baragraff 15 o atodlen 5 (dyfarniad uniongyrchol: contractau dewis defnyddwyr) o'r diffiniad o gontract rhagnodedig.
- Dileu Rheoliad 5(2) is-baragraff (f) (gwybodaeth am allyriadau).
- Dileu Rheoliad 5(2) is-baragraff (j) (cydfargeinio).

5.10 Yn ogystal, bydd y canllawiau'n cael eu hatgyfnerthu i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol ynghylch diffiniadau, prosesau ac adroddiadau blynyddol.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Cyflwyniad

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi cael ei gwblhau ar gyfer Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 ac mae i'w weld isod.

6.2 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi'r amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Rheoliadau ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

6.3 Bu'n rhaid gwneud cyfres o ragdybiaethau er mwyn cwblhau'r cyfrifiadau gan nad oedd digon o ddata ar gael. Caiff unrhyw ragdybiaethau a wnaed eu hesbonio yn y naratif. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau yn yr RIA wedi cael eu talgrynnu i'r cant agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau'n symio am fod y ffigurau wedi cael eu talgrynnu.

6.4 Mae'r RIA hwn yn ystyried costau amcangyfrifedig dros y cyfnod 2025–26 i 2034–35.

## 7. Yr opsiynau

### 7.1 <u>Opsiwn 1: Busnes fel arfer (gwneud dim byd)</u>

7.1.1 Byddai gwneud dim yn golygu na fyddai Gweinidogion Cymru yn bwrw ymlaen â'r pwerau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf i wneud Rheoliadau. Byddai hyn yn gwneud y canlynol:

- lleihau cwmpas y Ddeddf ynghylch rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chontractau rhagnodedig
- methu â galluogi adran 40 o'r Ddeddf i ddod i rym (y Gofrestr Gontractau)
- lleihau lefel yr wybodaeth y mae'n ofynnol i Awdurdodau Contractio ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol
- cadw term yn y Ddeddf nad yw'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd

7.1.2 Ni fyddai unrhyw newid i drefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol nac i'r disgwyliadau polisi presennol ynghylch caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru. Byddai trefniadau partneriaeth gymdeithasol anffurfiol ac ad-hoc presennol yn parhau.

7.1.3 Byddai hyn yn arwain at yr effeithiau negyddol canlynol:

- Byddai cyfleoedd i atgyfnerthu arferion gwaith teg yn ogystal â gwella llesiant drwy gynllunio strategol gwell ac atebolrwydd cliriach yn cael eu colli.

- Ni fyddai gan Weinidogion Cymru drosolwg cydlynol na'r tryloywder sydd ei angen ar draws gweithgareddau caffael gymdeithasol gyfrifol, gan arwain at ddiffyg gweledEdd mewn perthynas ag arferion a chanlyniadau ledled Cymru. Byddai'r diffyg hwn o ran gwybodaeth glir a hygyrch yn rhwystro'r gallu i gasglu tystiolaeth gadarn i lywio ac arwain newidiadau yn y dyfodol, gan ei gwneud yn anodd nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn esblygu yn unol â nodau llesiant ac uchelgeisiau polisi.

7.1.4 Mae'r risg ganlynol i Opsiwn 1:

- Risgiau i enw da sy'n gysylltiedig â'r gwaith sylweddol a wnaed hyd yn hyn ar greu deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol a chaffael cyhoeddus yng Nghymru ac wedyn peidio â bwrw ymlaen. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg hyder ymhlith rhanddeiliaid ynghylch penderfyniadau Llywodraeth Cymru a allai wneud rhanddeiliaid yn anfodlon gweithio gyda ni yn y dyfodol.

7.1.5 Byddai Opsiwn 1 hefyd yn arwain at

- Golli cyfleoedd i sicrhau tryloywder – byddai cyfle'n cael ei golli i wella tryloywder drwy gydol y cylch oes masnachol a hyrwyddo craffu gwell
- Colli cyfleoedd i gasglu gwybodaeth a fyddai'n gwella'r dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi yn y dyfodol
- Colli cyfle i ddefnyddio adroddiadau blynyddol ar gyfer ymyrryd a datblygu polisïau yn seiliedig ar ddata
- Colli cyfleoedd i hybu cynllunio ymlaen llaw a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol

7.1.6 Nid argymhellir Opsiwn 1 oherwydd y risgiau a'r cyfleoedd a fyddai'n cael eu colli, ac oherwydd nad yw'n bodloni blaenoriaethau neu amcanion polisi y Gweinidogion ar gyfer Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yng Nghymru.

**Costau a manteision Opsiwn 1: Busnes fel arfer (gwneud dim byd)**

7.1.7 Mae i Opsiwn 1 y costau posibl a ganlyn:

- Ailymgysylltu â'r sector cyhoeddus – os nad ydyn ni'n gwneud dim Byddai angen i Lywodraeth Cymru gynnal cyfres newydd o gyhoeddiadau a chylchlythyrau i esbonio pam rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad i beidio â gwneud Rheoliadau

7.1.8 Staff Llywodraeth bresennol Cymru a fyddai'n cynnal y gweithgareddau hyn, felly, er na fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, byddai'r gweithgareddau hyn yn cymryd adnoddau oddi wrth gyflawni yn erbyn ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu.

## 7.2 Opsiwn 2 – Gwneud Is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cynnig ateb digidol canolog cyfyngedig

7.2.1 Byddai Opsiwn 2 yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau yn y Ddeddf i wneud is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn cyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- cefnogi awdurdodau contractio i sicrhau bod nodau llesiant yn cael eu hystyried yn eu prosesau caffael, er mwyn gwella llesiant yng Nghymru a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu;
- sicrhau bod canlyniadau llesiant wrth wraidd strategaethau a phrosesau caffael;
- gwella'r cysylltiad rhwng prosesau caffael a sicrhau canlyniadau drwy brosesau gwell ar gyfer rheoli contractau;
- gwella tryloywder drwy adroddiadau blynyddol sy'n rhannu arferion da ac yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen gwelliannau.

7.2.2 Mae'r ateb digidol cyfyngedig yn cyfeirio at broffil cofrestru cyflenwyr gwell yn GwerthwchiGymru i ymgorffori'r wybodaeth am gyflenwyr y mae'n ofynnol ei mesur o dan Reoliad 6.

7.2.3 Mae Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol wybodaeth am werth amcangyfrifedig contractau a ddyfarnwyd i gontractwyr sy'n bodloni amodau penodol a bennir yn Rheoliad 6. Rhaid mynegi'r wybodaeth hon ar ffurf canran, ac mae angen casglu gwybodaeth am werth contractau a chyflenwyr ar gyfer pob contract perthnasol wedi'i ddyfarnu gan yr awdurdod contractio.

7.2.4 Bydd awdurdodau contractio'n gallu cael yr wybodaeth sydd ei hangen oddi wrth GwerthwchiGymru. Bydd angen i awdurdodau contractio ddefnyddio data GwerthwchiGymru i gyfrifo'r wybodaeth ganrannol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.

### Costau a manteision – Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cynnig ateb digidol canolog cyfyngedig

### Y Gofrestr Gontractau

7.2.5 Bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnal a chyhoeddi cofrestr gontractau sy'n cynnwys gwybodaeth am gontractau cofrestradwy sydd o fewn cwmpas y disgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn y Rheoliadau hyn. Mae'r tabl isod yn cymryd bod yr awdurdod

contractio yn defnyddio'r swyddogaeth o fewn GwerthwchiGymru i greu ei gofrestr gontractau. Ni fydd angen unrhyw adnoddau ychwanegol – fodd bynnag, isod mae cost amcangyfrifedig gwirio a chynnal y gofrestr honno bob blwyddyn. Disgwylir i awdurdodau contractio ysgwyddo'r gost hon o 2025–26 ymlaen.

| Teitl swydd | Cost Staff Flynyddol (£) | Cyfradd Dyddiol (£) (Rhannwch â 220) | Dyddiau wedi'u Treulio | Cost Flynyddol (£) |
|---|---|---|---|---|
| SEO | 74,943 | 340 | 0.5 | 170 |
| HEO | 59,751 | 272 | 1 | 272 |
| | | | | |
| **CYFANSWM I'R AWDURDOD CONTRACTIO** | | | | **442** |
| **CYFANSWM x 73** | | | | **32,266** |

7.2.6 D.S. mae cyfraddau procsi sydd gyfwerth â Gradd SEO ac HEO Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfraddau cyflog staff o ganlyniad i'r amrywiadau ar draws y sector cyhoeddus a'r gwahaniaethau mewn teitlau swyddi. Amcangyfrifir y bydd yn ofynnol i 73 o awdurdodau contractio greu, cynnal a chyhoeddi cofrestr gontractau.

7.2.7 Felly, y gost gyfunol amcangyfrifedig ar gyfer creu, cynnal a chyhoeddi cofrestr gontractau yw £32,300 y flwyddyn (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

**Adroddiadau Blynyddol gan Awdurdodau Contractio ar Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol**

7.2.8 Bydd proffil y cyflenwr yn GwerthwchiGymru yn cael ei ddiwygio i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen am gontractwyr. Wedyn bydd gan awdurdodau contractio ddau opsiwn i dynnu'r data sydd ei angen:

- Defnyddio'r wybodaeth wedi'i chasglu yn GwerthwchiGymru drwy broffil y cyflenwr i ddarparu'r wybodaeth (lle mae cyflenwyr eisoes wedi diweddaru gwybodaeth eu proffil).
- Gofyn i'r wybodaeth gael ei diweddaru gan gyflenwyr (lle nad yw'r wybodaeth eisoes wedi cael ei diweddaru) o fewn eu proffil GwerthwchiGymru cyn adeg dyfarnu'r contract ar gyfer pob cyflenwr y dyfarnwyd contract rhagnodedig iddo.

7.2.9 Bydd yr ateb digidol canolog cyfyngedig yn darparu'r wybodaeth ar gyfer pob contractwr drwy eu proffil cyflenwyr, felly gall awdurdodau

contractio ddefnyddio hyn yn sail i gyfrifo'r wybodaeth ganrannol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Bydd angen i'r awdurdod contractio dynnu'r wybodaeth â llaw o GwerthwchiGymru a defnyddio templed cyfrifo, a fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, i gyfrifo'r wybodaeth sydd ei hangen i fodloni gofynion y Rheoliadau. Bydd costau gweinyddol gwneud hyn yn fach iawn. Bydd hyn yn darparu ateb digidol canolog cyfyngedig i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol ac arbed rhai o'r costau gweinyddol i bob awdurdod contractio.

7.2.10 Darperir templed ar gyfer adroddiadau blynyddol.

7.2.11 Rhagwelir y bydd y gwaith o gasglu'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer yr adroddiadau blynyddol yn cael ei wneud gan swyddog caffael ym mhob awdurdod contractio. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn 2027–28 (yn seiliedig ar weithgarwch caffael yn 2026–27).

7.2.12 Darparwyd y costau ar gyfer yr adroddiadau hyn yn yr RIA ar gyfer y Ddeddf, fodd bynnag, isod mae'r costau uwch newydd.

| Teitl swydd | Cost Staff Flynyddol (£) | Cyfradd Dyddiol (£) (Rhannwch â 220) | Dyddiau wedi'u Treulio | Cost Flynyddol (£) |
|---|---|---|---|---|
| G7 | 117,797 | 535 | 2 | 1,070 |
| SEO | 74,943 | 340 | 5 | 1,700 |
| | | | | |
| **CYFANSWM I'R AWDURDOD CONTRACTIO** | | | | **2,770** |
| **CYFANSWM x 44** | | | | **121,880** |

7.2.13 D.S. mae cyfraddau procsi sydd gyfwerth â Gradd 7 ac SEO Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfraddau cyflog staff o ganlyniad i'r amrywiadau ar draws y sector cyhoeddus a'r gwahaniaethau mewn teitlau swyddi. Amcangyfrifir y bydd yn ofynnol i 44 awdurdod contractio gynhyrchu adroddiadau blynyddol, gan mai dyma'r nifer sy'n debygol o fod wedi cynnal o leiaf un ymarfer caffael rhagnodedig mewn unrhyw flwyddyn benodol.

7.2.14 Felly, yr amcangyfrif o gost casglu'r data sydd ei angen ar gyfer adroddiadau caffael blynyddol yw £121,900 y flwyddyn (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

**Adroddiad Blynyddol Gweinidogion Cymru**

7.2.15 Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Rhaid i'r adroddiad hwn, a

fydd yn cael ei gyhoeddi gyntaf yn 2027–28, gynnwys gwybodaeth am yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddir gan awdurdodau contractio a chanlyniadau unrhyw ymchwiliadau o dan Adran 41 o'r Ddeddf. Rhaid gosod copi o’r adroddiad gerbron y Senedd. Cafodd manylion llawn eu cynnwys yn yr RIA ar gyfer y Ddeddf.

| Teitl swydd | Cost Staff Flynyddol (£) | Cyfradd Dyddiol (£) (Rhannwch â 220) | Dyddiau wedi'u Treulio | Cost Flynyddol (£) |
|---|---|---|---|---|
| SEO | 74,943 | 340 | 15 | 5,100 |
| HEO | 59,751 | 272 | 15 | 4,080 |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **9,180** |

7.2.16 Felly, yr amcangyfrif o gost cynhyrchu adroddiad caffael blynyddol Gweinidog Cymru yw £9,200 y flwyddyn (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).

7.2.17 Mae hefyd gost untro creu canllawiau ychwanegol a thempled i'r awdurdodau contractio ei ddefnyddio.  Amcangyfrifir y costau hynny fel a ganlyn: -

| Teitl swydd | Cost Staff Flynyddol (£) | Cyfradd Dyddiol (£) (Rhannwch â 220) | Dyddiau wedi'u Treulio | Cost Untro (£) |
|---|---|---|---|---|
| G7 | 117,797 | 535 | 0.5 | 267 |
| SEO | 74,943 | 340 | 1 | 340 |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **607** |

7.2.18 Felly, yr amcangyfrif o gost cynhyrchu'r canllawiau a'r templed ar gyfer yr adroddiad blynyddol yw £600 (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf).  Ysgwyddir y gost hon yn 2025–26.

**Costau Datblygu Digidol Llywodraeth Cymru**

7.2.19 Amcangyfrifir mai cost untro darparu ateb digidol canolog cyfyngedig (fel y'i disgrifir uchod) yw £30,000.  Rhagwelir yr ysgwyddir y gost hon yn ystod 2025–26.

**Costau Cyflenwr**

7.2.20 Bydd cost drosiannol gyfyngedig i gyflenwyr wrth ymgyfarwyddo â'r gofynion ac wrth ddarparu'r wybodaeth a fydd ei hangen ar awdurdodau contractio i gydymffurfio â'r Rheoliadau.  Bydd cyflenwyr yn darparu'r wybodaeth hon drwy ddiweddaru eu proffil GwerthwchiGymru.

7.2.21 Bydd costau sy'n gysylltiedig â hyn yn gostau cyfle sy'n gysylltiedig ag amser staff presennol, a disgwylir iddyn nhw fod yn isel iawn gan y bydd darparu ymateb cadarnhaol neu negyddol drwy focsys ticio ar GwerthwchiGymru yn cymryd ychydig iawn o amser.

7.2.22 Mae data gan GwerthwchiGymru yn dangos mai nifer y cyflenwyr y dyfarnwyd contract gwerth dros £30,000 iddyn nhw yn ystod y 12 mis diwethaf oedd 1,621. Mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif o nifer y cyflenwyr y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnyn nhw, oherwydd ei fod yn cynnwys cyflenwyr y dyfarnwyd contractau iddyn nhw gan awdurdodau contractio sydd y tu allan i gwmpas Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Serch hynny, dyna ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd.

7.2.23 Mae Arolwg Blynyddol SYG o Oriau ac Enillion yn dangos mai £24.21 oedd y cyflog gros canolrifol fesul awr ar gyfer 'Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol' yng Nghymru yn 2025. Mae addasu hyn ar gyfer costau nad ydyn nhw'n gyflogau yn rhoi cost staff cyfartalog o tua £30 fesul awr. Os ydyn ni'n cymryd yn ganiataol na fydd angen mwy na 30 munud ar bob cyflenwr i ymgyfarwyddo â'r gofynion ac i gwblhau'r adrannau perthnasol ar GwerthwchiGymru, mae hyn yn rhoi cyfanswm cost i gyflenwr yn 2026–27 tua £24,300.

**CRYNODEB O'R COSTAU CYFFREDINOL A AMCANGYFRIFIR – OPSIWN 2**

| Disgrifiad | 20205–26 | 2026–27 | 2027–28 ymlaen |
|---|---|---|---|
| Cofrestr Gontractau Awdurdodau Contractio | £32,300 | £32,300 | £32,300 |
| Adroddiad Blynyddol CA | | | £121,900 |
| Adroddiad Blynyddol WM | | | £9,200 |
| Canllawiau a Thempled Llywodraeth Cymru | £600 | | |
| Datblyu GwerthwchiGymru | £30,000 | | |
| Cost i Gyflenwyr | | £24,300 | |
| **CYFANSWM COST** | **£62,900** | **£56,600** | **£163,400** |

7.2.24 Mae'r costau yn y tabl wedi'u talgrynnu i'r can punt agosaf, a gwerth presennol y costau dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd yw tua £1.2 miliwn

7.2.25 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## 7.3 Opsiwn 3 – Gwneud Is-ddeddfwriaeth gyda ateb digidol canolog llawn

7.3.1 Opsiwn 3 yw gwneud Rheoliadau gydag ateb digidol llawn lle mae'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliad 6 yn cael ei hymgorffori ym mhroffiliau cyflenwyr ar GwerthwchiGymru, ac mae gan y system swyddogaeth adrodd i ddarparu'r union wybodaeth sydd ei hangen yn adroddiad blynyddol yr awdurdod contractio.

7.3.2 Bydd digideiddio'r holl broses o gasglu data ac adrodd yn galluogi ateb mwy effeithlon i awdurdodau lleol gyflwyno'r wybodaeth sydd eu hangen yn eu hadroddiad blynyddol.

7.3.3 Bydd Opsiwn 3 yn cynnwys yr holl gostau yn opsiwn 2 a chostau ychwanegol ar gyfer yr effeithiolrwydd digidol pellach o fewn GwerthwchiGymru.

7.3.4 Mae swyddogion yn parhau i edrych ar yr opsiwn hwn ac yn ystyried darparu ateb digidol llawn yn y dyfodol. Bydd hyn yn destun dadansoddiad cost a manteision llawn a bydd yn dibynnu ar fforddiadwyedd, gwerth am arian a dichonoldeb yr ateb arfaethedig.

# 8. Asesiad o'r gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb Ie Na** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnyn nhw gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 10% o gyfran y farchnad? | NAC OES |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnyn nhw gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | NAC OES |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnyn nhw gan y rheoliadau newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | NAC OES |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliadau'n effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | NA FYDDAI |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | NAC YDY |
| **C6**: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | NA FYDDAI |
| **C7**: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | NA FYDDAI |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb Ie Na** |
| **C8**: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | NAC YDY |
| **C9**: A fyddai'r rheoliadau'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | NA FYDDAI |

8.1 Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Bydd y darpariaethau tryloywder newydd yn y Rheoliadau'n cynyddu argaeledd data cadarn a dibynadwy, a fydd yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a nodi a monitro tueddiadau.

9.2 Bydd Gweinidogion hefyd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn.

9.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r gwaith o gyflwyno'r Ddeddf, a'r Rheoliadau, ac effeithiau darpariaethau'r Ddeddf yn y cyfnod ar ôl ei rhoi ar waith.